

Preifatrwydd a chwcis

Beth mae'r hysbysiad yma'n ei drafod?

Mae'r canllaw preifatrwydd yma'n dweud wrthyich chi beth i'w ddisgwyl pan fydd swyddfa'r Comisiynydd yn casglu gwybodaeth bersonol gan bobl sy'n ymweld â'r wefan hon [www.complantcymru.org.uk].

Rydyn ni'n casglu gwybodaeth am y canlynol:

- Ymwelwyr â'n gwefan
- Pobl sy'n cysylltu â ni gyda chwestiwn, os ydyn ni am roi ateb iddyn nhw (trwy ffurflen ar-lein)

Pam rydyn ni'n casglu'r wybodaeth?

- Er mwyn cyfathrebu â phobl, dim ond os byddwch chi'n rhoi eich manylion cyswllt ar y ffurflen ar-lein
- Er mwyn gwella ein gwefan, fel bod y cynnwys sydd arni mor hygyrch â phosibl

Cwcis

Pan fyddwn ni'n darparu gwasanaethau, rydyn ni am eu gwneud yn hwylus, yn ddefnyddiol ac yn ddibynadwy. Pan fydd gwasanaethau'n cael eu darparu ar y rhyngwrwyd, bydd hynny weithiau'n golygu gosod darnau bach o wybodaeth ar y ddyfais rydych chi'n ei defnyddio, er enghraifft, eich cyfrifiadur neu eich ffôn symudol. Mae'r rheiny'n cynnwys ffeiliau bach o'r enw 'cwcis'. Allan nhw ddim cael eu defnyddio i'ch adnabod chi'n bersonol.

Mae'r darnau hyn o wybodaeth yn cael eu defnyddio i wella gwasanaethau a sicrhau eu bod yn gweithio i chi trwy wneud y canlynol:

- darparu profiad hygyrch i ymwelwyr
- galluogi gwasanaeth i adnabod eich dyfais fel bod dim rhaid i chi roi'r un wybodaeth sawl tro yn ystod un dasg
- cydnabod eich bod eisoes wedi rhoi enw defnyddiwr a chyfrinair, fel bod dim rhaid i chi wneud hynny ar gyfer pob tudalen y gofynnwch amdani ar y we
- mesur faint o bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, fel bod modd eu gwneud yn haws eu defnyddio a sicrhau digon o gapasiti i wneud iddyn nhw weithio'n gyflym

Sut rydyn ni'n defnyddio cwcis

Cwcis sy'n hanfodol er mwyn defnyddio gwasanaethau ar y wefan hon:

Cwci hygyrchedd

Enw: cssStatus

Cynnwys nodweddiadol: Ymlaen/I ffwrdd

Dod i ben: 2 ddiwrnod

Enw: fontSize

Cynnwys nodweddiadol: Gwerth rhifol

Dod i ben: 2 ddiwrnod

Cwci YouTube.com

Enw: VISITOR_INFO1_LIVE

Cynnwys nodweddiadol: Rhif a gynhyrchir ar hap

Dod i ben: 6 mis

Enw: PREF

Cynnwys nodweddiadol: Rhif a gynhyrchir ar hap

Dod i ben: un flwyddyn

Enw: demographics

Cynnwys nodweddiadol: Rhif a gynhyrchir ar hap

Dod i ben: 15 mis

Enw: SID

Cynnwys nodweddiadol: Rhif a gynhyrchir ar hap

Dod i ben: 2 flynedd

Enw: HSID

Cynnwys nodweddiadol: Rhif a gynhyrchir ar hap

Dod i ben: 2 flynedd

Enw: APISID

Cynnwys nodweddiadol: Rhif a gynhyrchir ar hap

Dod i ben: 2 flynedd

Enw: LOGIN_INFO

Cynnwys nodweddiadol: Rhif a gynhyrchir ar hap

Dod i ben: 2 flynedd

Ymwelwyr â'n gwefan

Pan fydd rhywun yn ymweld â www.complantcymru.org.uk byddwn ni'n casglu gwybodaeth gan ddefnyddio meddalwedd Tarddiad Agored (Open Source) o'r enw Awstats, meddalwedd sy'n casglu gwybodaeth log rhyngwyd safonol a manylion sut mae ymwelwyr wedi defnyddio'n safle, e.e. ar ba dudalennau buon nhw'n edrych. Does dim modd adnabod ymwelwyr â'n safle trwy'r gwasanaeth yma.

Y System Rheoli Cynnwys (CMS) y mae Comisiynydd Plant Cymru yn ei ddefnyddio yw Wordpress. Gallwch chi ddarllen rhagor am y feddalwedd Tarddiad Agored honno [yma](#)

Cadw gwybodaeth bersonol yn ddiogel

Deddf Diogelu Data 1998 yw'r gyfraith sy'n dweud wrth sefydliadau beth mae'n rhaid iddyn nhw wneud i gadw manylion personol pobl yn ddiogel ac yn saff.

Mae cyfrifoldeb ar sefydliadau i wneud yn siŵr nad yw eich gwybodaeth breifat yn syrthio i'r dwylo anghywir nac yn cael ei defnyddio mewn modd dydych chi ddim yn hapus yn ei gylch.

Byddwn ni'n diweddarau ein systemau diogelu a'n llen dân er mwyn sicrhau bod eich manylion yn cael eu cadw'n ddiogel bob amser.

Cyrchu eich gwybodaeth bersonol

Os byddwn ni byth yn gofyn i chi roi unrhyw fanylion personol i ni, byddwn ni'n dweud wrthyh chi:

- Pam rydyn ni'n gofyn am yr wybodaeth
- Ar gyfer beth byddwn ni'n ei defnyddio

Os nad ydych chi'n siŵr beth yw ystyr hynny, mae croeso i chi ein holi am ragor o fanylion unrhyw bryd.

Mae gennych chi hawl i weld unrhyw wybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi. Gallwch chi gael gwybod sut mae gwneud hynny trwy gysylltu â ni. Os byddwch chi'n meddwl bod unrhyw wybodaeth sydd gennym amdanoch yn anghywir, rhowch wybod i ni, ac fe wnawn ni'n gorau i gywiro hynny. Ar rai adegau mae'n bosibl y bydd y gyfraith yn dweud bod dim rhaid i ni ddarparu pob rhan o'r wybodaeth, ond byddwn ni bob amser yn egluro pam wrthyh chi.

Rhannu eich gwybodaeth bersonol

Fyddwn ni byth yn rhannu eich gwybodaeth gyda sefydliadau eraill at ddibenion marchnata, ymchwil marchnad neu fasnachol, a fyddwn ni ddim yn trosglwyddo eich gwybodaeth bersonol i wefannau eraill.

Serch hynny, os byddwn ni'n pryderu am eich diogelwch, neu am ddiogelwch rhywun agos atoch chi, gallai fod rhaid i ni drosglwyddo eich gwybodaeth heb gael eich caniatâd. Yn dibynnu ar yr amgylchiadau, gallai hynny olygu ein bod ni'n cysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu. Petaen ni'n trosglwyddo eich gwybodaeth, bydden ni fel arfer yn dweud wrthyh chi ein bod ni'n gwneud hynny a'r rhesymau pam.

Rhagor o wybodaeth

Os bydd gennych chi unrhyw gwestiynau am y polisi hwn a sut rydyn ni'n gofalu am eich gwybodaeth bersonol, gallwch chi gysylltu â ni ar:

Rhadffôn: 0808 801 1000

E-bost: post@complantcymru.org.uk

Post:

Comisiynydd Plant Cymru, Tŷ Ystumllwynarth, Llys Siarter, Ffordd Ffenics, Llansamlet, Abertawe SA7 9FS

Cafodd y polisi hwn ei ddiweddarau ddiwethaf ar: 12 Chwefror 2018